# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 10 Rhagfyr 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(237)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 7, 10, 11, 13 a 15 eu grwpio.

Gwahoddodd y Llywydd llefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.21

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

Gwahoddodd y Llywydd llefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch ei ymchwiliad i'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.05

**NDM5648 David Rees (Aberafan)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Hydref 2014.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15.53

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NNDM5636**

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
**Mick Antoniw (Pontypridd)**
**Alun Ffred Jones (Arfon)**
**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi egwyddorion y Bil Cymorth i Farw.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 20 | 21 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 17.07

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:**

**NDM5654 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn nodi, o dan y Rhaglen Lywodraethu bresennol, fod Llywodraeth Cymru wedi methu o ran ei hamcanion allweddol i gyflawni dros bobl Cymru.

2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyhoeddi amserlen gyflawn ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar ddechrau'r Cynulliad hwn; a

3. Yn galw ar y Prif Weinidog i nodi ei bumed flwyddyn yn y swydd drwy gyhoeddi amserlen ar gyfer cyrraedd targedau ei Lywodraeth o ran:

a) perfformiad y GIG;

b) perfformiad addysgol Cymru yn erbyn safonau rhyngwladol megis PISA; ac

c) gwelliant mewn perfformiad economaidd ledled Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 37 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i sicrhau bod gan Gymru set lawn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cyfredol ar gyfer yr economi.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5654 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn nodi, o dan y Rhaglen Lywodraethu bresennol, fod Llywodraeth Cymru wedi methu o ran ei hamcanion allweddol i gyflawni dros bobl Cymru.

2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyhoeddi amserlen gyflawn ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar ddechrau'r Cynulliad hwn;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i sicrhau bod gan Gymru set lawn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cyfredol ar gyfer yr economi; a

4. Yn galw ar y Prif Weinidog i nodi ei bumed flwyddyn yn y swydd drwy gyhoeddi amserlen ar gyfer cyrraedd targedau ei Lywodraeth o ran:

a) perfformiad y GIG;

b) perfformiad addysgol Cymru yn erbyn safonau rhyngwladol megis PISA; ac

c) gwelliant mewn perfformiad economaidd ledled Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lwydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig wedi'i ddiwygio. Felly, gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6 Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.02

## 7 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.05

**NDM5647 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Sicrhau dyfodol ffermio yng Nghymru

Yr hyn y gall Cymru ei ddysgu wrth ei phartneriaid yn yr UE i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o ffermwyr yn gallu cael mynediad i dir, adeiladu eu busnesau a manteisio'n llawn ar gronfeydd datblygu Ewropeaidd.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.29

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2015**